

Llywodraeth Cymru

Rheolau Rheoli Cwotâu

Rheolau ar gyfer Rheoli Cwotâu Pysgota Cymru yn Ardaloedd VI a VII

SECTION	SUBJECT	PAGE
1	Cyflwyniad	2
2	Dyrannu Cwotâu Cymru	3
3	Cydnabod a Rheoli Cymdeithasau Cynhyrchwyr	5
4	Grwpiau Dyraniad Cwota Cymru	6
5	Cyfnewid a Throsglwyddo Cwotâu Rhwng gwledydd o fewn y flwyddyn	7
6	Ymuno â chychod y tu allan i Gymru	8
7	Symud cychod rhwng Cymdeithasau Cynhyrchwyr a Grŵp Cronfa dan 10 Metr Cymru	9
Atodiad A	Trefniadau i gefnogi camau disgyblu gan Gymdeithasau Cynhyrchwyr	10
Atodiad 1		12
Atodiad B	Cysylltiadau Llywodraeth Cymru	13

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi'r Rheolau hyn. Maent yn ymwneud â rheoli cwotâu pysgod y DU yn ardaloedd ICES¹ I, II, IV, VI, VII a'u hardaloedd cysylltiedig a Vb (Ynysoedd Ffaro) sydd wedi'u neilltuo i Lywodraeth Cymru trwy gytundeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- 1.2 Dylid darllen y rheolau hyn ar y cyd â Rheolau Rheoli Cwotâu'r DU a'r Concordat ar Drefniadau Rheoli Cyfleoedd Pysgota a Thrwyddedu Cychod Pysgota yn y DU.
- 1.3 Maent yn rheolau gweinyddol ac yn ymwneud yn bennaf â'r cwotâu sydd wedi'u neilltuo i Lywodraeth Cymru gan y DU. Bydd Llywodraeth Cymru'n eu hadolygu o dro i dro gan ymgynghori â chynrychiolwyr diwydiant pysgota Cymru a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb neu fudd yn y materion hyn.
- 1.4 Ceidw Llywodraeth Cymru'r hawl, ar ôl ymgynghori lle medrir, i beidio â chadw at y rheolau hyn.
- 1.5 Gweler **Atodiad B** ar ddiwedd y ddogfen hon am fanylion cysylltu perthnasol Llywodraeth Cymru.

¹ International Council for the Exploration of the Seas.

ADRAN 2: DYRANNU CWOTÂU CYMRU

Y Dull

2.1 Caiff y cwotâu a ddyrennir i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU eu rhannu'n dri i'w neilltuo i'r grwpiau canlynol.

- i. Grwpiau Cymreig sydd â thrwydded dros 10m ac sy'n aelodau o Gymdeithas Gynhyrchwyr yn y DU ("**sector Cymru**");
- ii. Grwpiau Cymreig sydd â thrwydded dros 10m nad ydyn nhw'n aelod o Gymdeithas Cynhyrchwyr yn y DU ("**cychod y tu allan i sector Cymru**"); a,
- iii. Grwpiau Cymreig sydd â thrwydded 10 metr neu lai ("**cronfa dan 10 metr Cymru**").

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i gadw cwota'n ganolog at ddibenion eraill.

2.2 Dyrennir swm y cwotâu sydd ar gael i sector Cymru fel arfer yn ôl nifer yr unedau o FQA (Dyraniadau Cwota Sefydlog) sydd ar drwyddedau dros 10m sy'n aelodau o Gymdeithas Cynhyrchwyr a thrwyddedau 'ffug' Cymreig a gedwir gan Gymdeithasau Cynhyrchwyr ar 1 lonawr y flwyddyn rheoli cwota dan sylw.

2.3 Bydd y cwotâu sydd ar gael i'r sector y tu allan i Gymru ac yn y gronfa o dan 10 metr yn cael eu cadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru a'u rheoli (fel arfer ar sail terfynau dalfa cyfnodol) ar y cyd â buddiannau perthnasol o fewn y diwydiant.

2.4 Caiff unrhyw gwtâu ychwanegol a geir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn fel arfer eu rhannu trwy'r dull a ddisgrifir uchod. Ymdrinnir â cholledion cwota yn ystod y flwyddyn yn ôl rhinweddau'r sefyllfa.

Nodiadau pellach ar y dull

Trosglwyddo unedau FQA yn hawliau ar drwyddedau Cymreig a 'datganiadau dalfeydd'.

2.5 Caiff y rheini sydd â hawliau ar drwydded ar gyfer cychod dros 10 metr a than 10 metr neu sydd â datganiadau dalfeydd ar gyfer cychod cyfnewid FQA drosglwyddo unedau FQA i Gymdeithas Cynhyrchwyr er mwyn cynnwys dyraniadau cwota blwyddyn benodol gan ddefnyddio ffurflen AFL8.

Caiff unedau FQA sy'n gysylltiedig â hawliau neu ddatganiad dalfa nad ydynt wedi'u trosglwyddo fel uchod eu cyfrif fel rhan o'r cwotâu fydd yn cael eu dyrannu y tu allan i'r sector neu i'r gronfa o dan 10 metr, hynny os gwêl Llywodraeth Cymru'n dda. Caiff ffurflenni eu hanfon at bartïon perthnasol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr y flwyddyn gwota berthnasol.

Dyraniadau Arbennig

2.6 Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud Dyraniadau Arbennig yn y canlynol:

- i. Pysgodfa Mecryll Lein Llaw y gronfa o dan 10 metr. Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio creu Dyraniad Arbennig er mwyn gallu agor pysgodfa mecryll lein llaw o dan 10 metr yn nyfroedd de orllewin y DU fydd yn cynnwys Môr Hafren yn unol â'r tymor.

Ailddyraniad o fewn y flwyddyn

- 2.7 Y prif gyfrwng ar gyfer sicrhau bod cymaint â phosib o gwota Cymru'n cael ei ddefnyddio (i'r graddau bod hynny'n gyson ag amodau'r farchnad) yw trwy ganiatáu i Gymdeithasau Cynhyrchwyr gyfnewid cwotâu â grwpiau eraill. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl hefyd, ar ôl ymgynghori ac ystyried asesiad o'r effeithiau economaidd a biolegol, i ofyn am y dyraniadau yn ôl ac ailddyrranu dyraniadau os ymddengys yn debygol na chaiff y dyraniad cyfan ei ddal.

Wrth ystyried ailddyrranu, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried hefyd a oes gwir ymdrech wedi'i gwneud i gael cwota ychwanegol trwy geisio cyfnewid cwota â'r rheini sydd â chwota. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried hefyd, lle bo gofyn, barn y Gweinyddiaethau Pysgodfeydd (FA) eraill yn y DU, yn enwedig ynghylch y Cymdeithasau Cynhyrchwyr sy'n derbyn dyraniad o fwy nag un Weinyddiaeth.

ADRAN 3: CYDNABOD A RHEOLI CYMDEITHASAU CYNHYRCHWYR (POs)

Cydnabod Cymdeithasau Cynhyrchwyr

- 3.1 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cymdeithasau Cynhyrchwyr y mae'n gyfrifol am eu gweinyddu yn cydymffurfio ag amodau cydnabod yr UE yn Erthygl 14 Rheoliad 1379/2013 yr UE a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 1419/2013. Y Cymdeithasau sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru yw'r rheini sydd â'r rhan fwyaf o'u harwynebedd fel y'i nodir yn eu cais am gydnabyddiaeth yng Nghymru.
- 3.2 Gall Llywodraeth Cymru wneud Cymdeithas Gynhyrchwyr yn gyfrifol am reoli cwtâu sector a gallai Cymdeithasau Cynhyrchwyr gael cwtâu oddi wrth Lywodraeth Cymru. Bydd rhoi a chadw'r cyfrifoldeb am reoli cwtâu sector yn dibynnu ar amodau Rheolau Rheoli Cwtâu'r DU, ac unrhyw amodau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu pennu.
- 3.3 Mae gan y Cymdeithasau Cynhyrchwyr canlynol gyfrifoldeb a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru am reoli cwtâu sector:
 - Cymdeithas Cynhyrchwyr Pysgod Arfordir Cymru a Gorllewin Lloegr (W&WCFPO)
- 3.4 Gall Cymdeithas Gynhyrchwyr sydd wedi'i chydabod gan un o Weinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU fel Cymdeithas Gynhyrchwyr yn ei Gweinyddiaeth gael cwota oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y cychod sy'n aelodau o'r Gymdeithas ac sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Rheoli Cymdeithasau Cynhyrchwyr

- 3.5 Os bydd Cymdeithas Gynhyrchwyr Llywodraeth Cymru yn dewis rheoli'r cwtâu a ddyrannwyd iddi gan Weinyddiaethau eraill i gyd gyda'i gilydd (cyfun), bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am sicrhau bod y Gymdeithas Gynhyrchwyr yn rheoli ei dyraniad cyfun o gwota yn effeithiol.
- 3.6 Fel arall, os bydd y Gymdeithas Gynhyrchwyr yn dewis rheoli'r cwtâu sydd wedi'u dyrannu iddi gan Weinyddiaethau gwahanol ar wahân, caiff y cychod Cymreig sy'n aelod o'r Gymdeithas Gynhyrchwyr eu trin fel Grŵp Dyraniad Cwota ar wahân. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru ond yn gyfrifol am sicrhau bod y cwtâu Cymreig yn y grŵp yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- 3.7 Rhaid i'r Gymdeithas Gynhyrchwyr roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa opsiwn y bydd am ei ddefnyddio erbyn 30 Tachwedd yn y flwyddyn cyn y flwyddyn rheoli cwota berthnasol.

Cynlluniau Cynhyrchu a Marchnata

- 3.8 O dan Erthygl 28 o Rheoliad 1379/2013 yr UE, rhaid i bob cymdeithas gynhyrchwyr gyflwyno Cynllun Cynhyrchu a Marchnata (PMP) ar gyfer o leiaf ei phrif rywogaeth marchnata i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo. Bydd angen cyflwyno PMP i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn erbyn 1 Chwefror. Ar gyfer PMP sy'n rhychwantu'r 12 mis, dylid cyflwyno PMP newydd 8 wythnos cyn y daw'r PMP cyfredol i ben.

ADRAN 4 GRWPIAU DYRANIAD CWOTA CYMRU

- 4.1 Dylai unrhyw Gymdeithas Gynhyrchwyr sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n dewis rheol ar wahân y dyraniadau y mae'n eu cael oddi wrth weinyddiaethau eraill, bydd angen iddi sefydlu grŵp dyraniad cwota ar wahân ar gyfer cychod pob gwlad sy'n aelod ohoni. Caiff y cychod sy'n aelodau ohoni ei grwpio yn ôl gwlad a gellid cynnwys y cychod 10 metr neu lai sy'n aelod o'r Gymdeithas cyn belled â bod eu trwyddedau'n perthyn i'r Gymdeithas Gynhyrchwyr.
- 4.2 Bydd grwpiau dyraniad cwota Llywodraeth Cymru'n agored yn unig i gychod sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Bydd yr hawl i symud cychod i ac o grwpiau dyraniad cwota yn dibynnu ar yr amodau y mae'r gweinyddiaethau wedi cytuno arnynt rhyngddynt ac a welir yn rheolau rheoli cwotâu'r DU.
- 4.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro pob grŵp dyraniad cwota Cymreig ar wahân yn ogystal â monitro gweithgarwch cyfunol y Gymdeithas Gynhyrchwyr. Gall Llywodraeth Cymru gau pysgodfeydd y grwpiau Cymreig yn ôl y gofyn i rwystro gorbysgota.

ADRAN 5: CYFNEWID A THROSGLWYDDO CWOTÂU RHWNG GWLEDYDD O FEWN Y FLWYDDYN

Cyfnewid cwotâu, drwy Gymdeithasau Cynhyrchwyr a reolir gan Lywodraeth Cymru

- 5.1 Yn unol ag adran berthnasol rheolau rheoli cwotâu'r DU, lle bo Cymdeithas Gynhyrchwyr a reolir gan Lywodraeth Cymru'n trefnu bod cwotâu'n cael eu cyfnewid ag Aelod-wladwriaeth arall neu os mai'r Gymdeithas ei hun sy'n cynnig neu'n derbyn cwota, bydd yn rhoi'r manylion i'r MMO (FMC@marinemanagement.org.uk) ac i reolwyr cwota Llywodraeth Cymru yr un pryd.
- 5.2 Cyn belled â bod yr MMO ar ôl ymgynghori â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill yn fodlon y daw lles cyffredinol i'r DU o gyfnewid cwotâu, bydd Llywodraeth Cymru neu'r MMO (ar ôl cytuno pwy ddylai cymryd yr awenau) yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Aelod-Wladwriaeth dan sylw i gytuno ar delerau'r Cyfnewid. Ar ôl gwneud, bydd yr MMO yn prosesu'r Cyfnewid yn FIDES a chaiff y Gymdeithas Gynhyrchwyr wybod pan fydd y cwotâu wedi'u cyfnewid. Rhoddir manylion y rheini sy'n elwa iddi, os ydy'r manylion hynny ar gael.

Pwyntiau eraill

- 5.3 Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru, yn y lle cyntaf, ystyried cynigion i lesio neu brynu cwota oddi wrth grwpiau mewn Aelod-Wladwriaethau eraill.

ADRAN 6: YMUNO Â CHYCHOD Y TU ALLAN I GYMRU

Rheoli'r Cychod dros 10 metr y tu allan i Sector Cymru

- 6.1 Ni fydd yr un cwch Cymreig yn cael pysgota fel cwch y tu allan i sector Cymru oni bai bod gan ei drwydded o leiaf yr un faint o unedau FQA oedd ganddi ar 1 Ionawr 2008 neu eu cyfatebol. Os cafodd y drwydded ei chreu ar ôl 1 Ionawr 2008 trwy grynhoi hawliau trwyddedau, rhaid cadw'r unedau FQA oedd ynghlwm wrth y trwyddedau gwreiddiol ar 1 Ionawr 2008 neu eu cyfatebol mewn penfras.
- 6.2 Serch y gofynion yn y paragraff uchod, os bydd cwch Cymreig yn gadael Gymdeithas Cynhyrchwyr i bysgota fel cwch y tu allan i sector Cymru naill ai o fewn y flwyddyn neu o 1 Ionawr, mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i roi ar drwydded y cwch yr unedau FQA sy'n cyfateb i derfynau dalfeydd cychod y tu allan i sector Cymru yn y flwyddyn gwota lawn ddiwethaf. Tynnir sylw rheolwyr cwota am achosion o'r fath cyn i adran drwyddedu'r bysgodfa roi trwydded tu allan i sector Cymru.
- 6.3 Pan fydd cwch trwyddedig yn cael ei symud o Gymdeithas Cynhyrchwyr i'r tu allan i Sector Cymru neu pan fydd trwydded cwch sy'n aelod o'r Gymdeithas Cynhyrchwyr yn cael ei rhoi i gwch pysgota y tu allan i sector Cymru, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i'r Gymdeithas Cynhyrchwyr yr oedd y cwch/trwydded yn perthyn iddi, gadarnhau nad oedd ganddi gytundeb i drosglwyddo cwota sy'n deillio o'i (h)unedau FQA, neu'r unedau FQA eu hunain, i drwydded/cwch trwyddedig arall o fewn yr un Gymdeithas Cynhyrchwyr neu Gymdeithas arall. Os oes cytundeb o'r fath wedi'i wneud, ni chaiff fynd y tu allan i sector Cymru oni bai bod deiliad y drwydded yn llwyddo i gael unedau ychwanegol cyfatebol.
- 6.4 Ni chaiff cychod y 'gronfa' dros 10 metr sy'n pysgota fel cychod y tu allan i sector Cymru lesio cwota i mewn at eu dibenion unigol.

ADRAN 7: SYMUD CYCHOD Y GRONFA O DAN 10 METR RHWNG CYMDEITHASAU CYNHYRCHWYR A GRWP CRONFA DAN 10 METR CYMRU (NAD YW’N GYMDEITHAS CYNHYRCHWYR)

Symud Cychod 10m o Gymdeithas Cynhyrchwyr a Grŵp 10m Cymru (nad yw’n Gymdeithas Cynhyrchwyr)

- 7.1 Ni chaniateir trosglwyddo unedau neu gwota FQA o ddaliad cyfun y fflyd 10m (nad yw’n Gymdeithas Cynhyrchwyr) i Gymdeithas Cynhyrchwyr wedi i gychod 10m (nad ydynt yn Gymdeithas Cynhyrchwyr) ddechrau pysgota gan ddefnyddio dyraniadau’r Gymdeithas Cynhyrchwyr.
- 7.2 Caiff cwch 10m oedd yn pysgota fel rhan o’r fflyd 10m ar 1 Ionawr newid i bysgota gan ddefnyddio dyraniadau’r Gymdeithas Cynhyrchwyr yn ystod y flwyddyn, cyn belled â bod y cwch yn aelod o’r Gymdeithas Cynhyrchwyr, nid yn unig am weddill y flwyddyn ond hefyd am y flwyddyn gyfan sy’n dilyn.
- 7.3 Ni chaiff cwch pysgota sy’n defnyddio dyraniadau gan Gymdeithas Cynhyrchwyr newid i bysgota â dyraniadau fflyd 10m (nad yw’n Gymdeithas Cynhyrchwyr) yn ystod y flwyddyn.
- 7.4 Cyn ailymuno â’r fflyd 10m (nad yw’n Gymdeithas Cynhyrchwyr), bydd yn rhaid i’r cwch gael gwared ar unrhyw unedau FQA sy’n rhan o’i drwydded.
- 7.5 Ni chaiff cychod pysgota yng ‘nghronfa’ 10m Cymru lesio cwota i mewn at eu dibenion unigol.

ATODIAD A

TREFIADAU I GEFNOGI CAMAU DISGYBLU GAN GYMDEITHASAU CYNHYRCHWYR CYMRU

Nod y pŵer

1. Rhwystro cychod sy'n aelod o Gymdeithas Cynhyrchwyr yng Nghymru rhag torri rheolau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr.

Cwmpas

2. Bydd y trefniadau hyn yn effeithio yn unig ar gychod Cymreig sy'n aelod o Gymdeithas Cynhyrchwyr Gymreig, sydd wedi bod yn destun camau disgyblu ac sydd wedi'u cosbi gan Gymdeithas Cynhyrchwyr am dorri'i rheolau, ond nad ydynt eto wedi talu'r gosb (boed hynny trwy arian, pysgod neu sail arall) i'r Gymdeithas Cynhyrchwyr o fewn y cyfnod a bennwyd gan y Gymdeithas Cynhyrchwyr.

Amgylchiadau pan fydd gweinyddiaethau'n cymryd camau trwyddedu ategol

3. Pan fydd aelod o Gymdeithas Cynhyrchwyr wedi methu, o leiaf unwaith, â chadw at amodau cosb a roddwyd arni gan y Gymdeithas Cynhyrchwyr, caiff y Gymdeithas honno dynnu sylw rheolwyr cwota Llywodraeth Cymru at y sefyllfa. Os na fydd yr aelod hwnnw'n bodloni amodau ail gosb, caiff y Gymdeithas atal yr aelod am ddau i bedwar mis. Bydd Llywodraeth Cymru'n newid trwydded cwch yr aelod yn gwch y tu allan i sector Cymru – ni fydd gofyn cadw at y rheolau arferol ynghylch mynd y tu allan i sector Cymru (gweler adran 7).
4. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud hyn ar ôl cadarnhau ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan y Gymdeithas Cynhyrchwyr, bod y broses briodol wedi'i dilyn, nad yw'r aelod wedi bodloni amodau dwy gosb a roddwyd arno gan y Gymdeithas a bod yr aelod wedi cael gwybod gan y Gymdeithas ei fod wedi'i atal.
5. Eir â'r aelod trwy'r broses os na fydd wedi bodloni amodau cosbau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr, gan gynnwys peidio â bodloni'r amodau o fewn y cyfnod a bennir gan y Gymdeithas. Er enghraifft, bydd cwch sydd heb dalu dirwy 1 o fewn yr amser a bennwyd ond sydd wedi talu dirwy 2, ond nad yw wedyn yn talu dirwy 3, a bod y Gymdeithas yn ei atal fel aelod, yna bydd Llywodraeth Cymru yn newid y drwydded i fod yn gwch y tu allan i sector Cymru. Ar y llaw arall, caiff aelod ddychwelyd i ddechrau'r broses os na fu achos arall ohono'n peidio â thalu dirwy yn y cyfnod o 24 mis ar ôl y tro diwethaf iddo beidio â thalu (na arweiniodd at ei atal).
6. Ni fydd y cyfnod atal cyntaf yn llai na 2 fis nac yn fwy na 4 mis ac ychwanegir dau fis at bob cyfnod atal wedi hynny

Rheoli cwch yn ystod y cyfnod atal

7. Ni fydd y cyfnod atal yn dechrau ar ganol mordaith.
8. Caiff trwydded cwch sy'n cael ei atal ei newid i adlewyrchu terfynau dalfa cychod y tu allan i sector Cymru, a chaiff ei laniadau eu cyfrif dros dro fel rhan o'r dyraniadau i gychod y tu allan i sector Cymru. Pan fydd yn ailymuno â'r Gymdeithas Cynhyrchwyr, caiff glaniadau dilys a wnaed gan y

cwch pan oedd y tu allan i sector Cymru eu nodi fel rhai'r Gymdeithas. Os bydd y cwch wedi torri terfynau'r ddalfa y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod atal, Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau gorfodi a allai fod yn briodol. Bydd yn rhaid i'r cwch fodloni'r holl amodau eraill sy'n gysylltiedig â bod yn gwch y tu allan i sector Cymru, sy'n golygu na fydd yn cael:

- lesio cwota i mewn at ei ddefnydd ei hun
- pysgota cwota'r cwch unigol
- cael nac ildio unedau FQA.

9. Mae **Atodiad 1** yn disgrifio priod rolau Llywodraeth Cymru a'r Cymdeithasau Cynhyrchwyr a threfn y camau a gymerir o dan y trefniadau hyn.

Atodiad 1

Cyfrifoldebau a threfn y camau

Camau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr	Camau'r weinyddiaeth pysgodfeydd	Statws y camau neu nodiadau
Rhowch gwybod i'r FA bob chwarter os/pan y bydd cwch wedi torri rheolau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr, y camau a gymerwyd a'r canlyniad (gweler para 3.5 rheolau rheoli cwota'r DU) gan ddarparu tystiolaeth gysylltiedig.	Pysgodfeydd LIC yn nodi lleoliad. NFA.	Mater o drefn
Rhoi gwybod i LIC pan fydd cwch wedi torri rheolau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr a heb gyflawni'r gosb, gyda thystiolaeth gysylltiedig. Y Gymdeithas i roi'r holl ddogfennau am Gosb heb ei Chyflawni 1 i MS.	Pysgodfeydd LIC yn nodi lleoliad. NFA.	Cosb heb ei Chyflawni 1
1. Rhoi gwybod i LIC pan fydd yr un cwch, am yr ail dro, wedi torri rheolau'r Gymdeithas, heb gyflawni'r gosb ac wedi'i atal dros dro o'r Gymdeithas am gyfnod penodol o amser.	1. Bydd Pysgodfeydd LIC am gadarnhau bod y Gymdeithas wedi dilyn y broses briodol (yn unol â rheolau'r Gymdeithas) o ran Cosbau heb eu Cyflawn 1 a 2.	Cosb heb ei Chyflawni 2 ac wedi'i atal (o'r Gymdeithas am gyfnod)
2. Y Gymdeithas i roi'r holl ddogfennau am Gosb heb ei Chyflawni 2 i MS.	2. Os bydd MS yn fodlon, rhoi trwydded fel grŵp y tu allan i sector Cymru.	
Rheolaeth dros y cyfnod atal		
Camau'r weinyddiaeth pysgodfeydd	Camau'r Gymdeithas Cynhyrchwyr	Statws y camau neu nodiadau
Pan cytunir i newid grŵp, bydd LIC yn trosglwyddo cwota o'r Gymdeithas i gychod y tu allan i sector Cymru allu glanio dalfa.	Y Gymdeithas i drosglwyddo cwota i gychod y tu allan i'r sector.	Efallai y bydd ei angen i ddiogelu dyraniadau cychod y tu allan i sector Cymru.
Ar ôl cwblhau'r cyfnod fel cwch y tu allan i sector Cymru		
Camau Llywodraeth Cymru		
Newid y drwydded i'r cwch gael mynd yn ôl yn aelod o'r Gymdeithas.		Diwedd y digwyddiad

Atodiad B

Cysylltiadau Llywodraeth Cymru

Rheoli Cwota ac Ymdrech Bysgota

Rheolwr Cwotâu	Louise Durns	0300 062 2184	louise.durns@wales.gsi.gov.uk
Arweinydd Polisi	Michael Jones	0300 062 2184	michael.jones@wales.gsi.gov.uk

Trwyddedau

Trwyddedu cychod	Mike Tucker	01646 696017	mike.tucker@wales.gsi.gov.uk
Ymholiadau swyddfa	Barrie John	01646 696016	barrie.john@wales.gsi.gov.uk

Gwefan Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

www.cymru.gov.uk/pysgodfeydd
www.wales.gov.uk/fisheries